

Yr Athro Carl Hermann Ethé (1844-1917): hefyd yn ddioddefwr o'r Rhyfel Byd Cyntaf¹

Christopher T Husbands

Darllenydd Emeritws mewn Cymdeithaseg, London School of Economics and Political Science

Roedd Carl Hermann Ethé yn ddinesydd Almaenig a oedd yn Athro Almaeneg a leithoedd Dwyreiniol yng Ngholeg Prifysgol Cymru Aberystwyth ar ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd ei dynged o ganlyniad i'r Rhyfel mor druenus â nifer o athrawon Almaenig eraill mewn Prifysgolion Prydeinig a Gwyddelig ar yr adeg honno. Ond dioddefodd Ethé hefyd oherwydd amgylchiadau'r Rhyfel am iddo gael ei orfodi adael ei brifysgol nid oherwydd agwedd awdurdodau'r sefydliad na'r Llywodraeth hyd yn oed, ond oherwydd y diffyg goddefgarwch a ddangoswyd gan bobl leol ac awdurdodau'r dref, yn yr achos hwn pobl a Chyngor Tref Aberystwyth. Ar y llaw arall, cefnogodd awdurdodau'r Coleg ef orau y medrent, ac yn ddiweddarach, yn anrhydeddus, rhoddwyd blwydd-dâl iddo, gan ymddwyn yn groes i safbwynt y Cyngor Lleol. Mae'n wir, er bod pethau'n dynn ar y Coleg, nad effeithiwyd cymaint arni drwy golli cefnogaeth ariannol ei hawdurdod Lleol, ag yr effeithiwyd ar Brifysgolion Birmingham a Leeds mewn achosion tebyg², ond fe greodd y gwahaniaethau rhwng y Coleg a Chyngor y Dref yn achos Ethé gryn densiynau yn nhref fechan anghysbell Aberystwyth.

Sonia Panayi am driniaeth Ethé, ond dim ond cyfeirio at rai o ddigwyddiadau Hydref 1914 a wna, gan roi disgrifiadau camarweiniol iawn o'r canlyniad.³ Mae'r cofnod gwreiddiol am fywyd Ethé yng nghopi caled yr *Oxford Dictionary of National Biography* hefyd yn crybwyll yr achos, ond mae ei adroddiad o'r achos hwn, naill ai oherwydd ei fyrder neu'r hyn a adawyd allan, yn eithaf camarweiniol, ac yn annheg yn ei ensyniadau am ran y Coleg; y cyfan a ddywed yw 'yn Hydref 1914 gorfododd ton o ddicter poblogaidd y coleg i'w ddiswyddo', sydd yn ffeithiol anghywir⁴. Fodd bynnag, mae'r fersiwn ar-lein ddiweddaraf yn cynnwys newidiadau a chywiriadau pwysig, gan gynnwys dileu'r ensyniadau yn erbyn ymddygiad y Coleg. Yn yr adroddiadau cyhoeddedig, ceir yr

¹ Rhan wedi ei haddasu o astudiaeth gymharol hirach gan yr un awdur yw'r erthygl hon yn dwyn y teitl 'German-/Austrian-origin Professors of German in British universities during the First World War: the lessons of four case studies' sy'n ystyried tri achos arall o athrawon o'r Almaen ac Awstria yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf; mae'r papur llawn i'w gael ar:

http://eprints.lse.ac.uk/49797/1/Husbands_German_Austrian_origin_2013.pdf.

² Am yr achos yn Birmingham, gweler Christopher T Husbands, 'German academics in British universities during the First World War: the case of Karl Wichmann', *German Life and Letters*, New Series, 60(4), October 2007, 493-517, a Christopher T Husbands, 'Karl Wichmann (1868-1948): a research note', *German Life and Letters*, New Series, 65(3), July 2012, 333-343. For the Leeds case, see 'German-/Austrian-origin Professors of German . . .', *passim*.

³ Panikos Panayi, *The Enemy in Our Midst: Germans in Britain during the First World War* (New York: Berg 1991), 194-5. Er gwaethaf cefnogaeth honedig gan ffynhonnell dau bapur newydd (y *Manchester Guardian* yn un), nid oes dim yn cefnogi'r hyn a ddywed Panayi (t.195) bod 'the College authorities managed to satisfy the local council [presumably intended is the Town Council] of Ethé's innocence'. Y cyfan a wnaeth y *Manchester Guardian* oedd cynnwys adroddiad Thomas Francis Roberts o'r digwyddiadau i Lys y Llywodraethwyr (24 Hydref 1914, 4) yn dilyn yr hyn a ddywedwyd isod mewn adroddiad yn y *Cambrian News* ar 30 Hydref 1914.

⁴ J T P de Bruijn, 'Ethé, (Carl) Hermann (1844-1917)', *Oxford Dictionary of National Biography* (Oxford: Oxford University Press 2004).

hanes llawnaf a thecaf o'r hyn ddigwyddodd yn llyfr Ellis.⁵ Ond nid yw hwn chwaith yn rhoi'r hanes yn llawn ac mae'r hyn sy'n dilyn yn ymhelaethu ar ac yn ychwanegu at adroddiad Ellis.⁶

Ganwyd Ethé, a oedd o dras Ffrengig, ar 18 Chwefror 1844 yn Stralsund (i'r gogledd o Berlin ac yn agos i arfordir Baltig, a oedd bryd hynny yn Pomerania yn Prwsia ond nawr yn rhanbarth Mecklenburg-Vorpommern), yn fab i Franz Ethé a'i wraig Mathilde (*née* Lappe). Roedd ei dad yn rhyw fath o beiriannydd ac roedd ei deulu'n Brotestaniaid. Cyn iddo astudio yn y brifysgol, roedd y teulu yn Greifswald, ger Stralsund. Ymunodd Ethé â Phrifysgol Leipzig ar 23 Hydref 1863 i astudio yn y Gyfadrannau Ieitheg. Gan ei fod wedi dod o Brwsia i astudio yn Saxony, roedd e mewn gwirionedd yn cael ei ystyried yn estron. Derbyniodd ei DrPhil mewn llenyddiaeth Ddwyreiniol o Leipzig yn 1865, ar ôl astudio diwinyddiaeth yn wreiddiol ac yna diwinyddiaeth a ieitheg; a cheir yn ei ffeil yn y Brifysgol gofnod iddo gael sawl cerydd swyddogol am achosion o fod yn swnllyd yn y nos ac ymddygiad anwedus.⁷ Yn ddiweddarach derbyniodd MA er anrhydedd o Rydychen. Roedd yn ddarlithydd mewn Ieithoedd Dwyreiniol ym Mhrifysgol Munich o 1867 i 1871. Fe'i denwyd i Brifysgol Rhydychen yn 1872 ar argymhelliad yr Athro Max Müller i fod yn llyfrgellydd cynorthwyol yn Llyfrgell Bodleian i gwblhau'r catalog o llawysgrifau Persiaidd, Twrcieg, Hindwstani a Pashto ac i lunio catalog o'i llawysgrifau Arabaidd. Hefyd, yn 1872 ymddiriedwyd i Ethé gan Ysgrifennydd Gwladol India y gwaith o gatalogio llawysgrifau Persieg Llyfrgell Swyddfa India, a chyhoeddwyd y gyfrol gyntaf yn 1903.

Yn 1875, ar argymhelliad Müller, daeth yn Athro Almaeneg a Ieithoedd Dwyreiniol yng Ngholeg Prifysgol Aberystwyth, ac yn sicr ef oedd yr unig ysgolhaig o wir ragoriaeth ryngwladol yn y Coleg y pryd hynny. Tan 1894, roedd ef hefyd yn Athro Iaith a Llenyddiaeth Ffrangeg yno. Roedd yn amlieithydd mewn nifer sylweddol o ieithoedd canol-Asiaidd a chynigai ddarlithoedd ar Hebraeg, Arabeg, Persieg, Syrieg neu Ethiopiaeg, a Sanskrit, yn ogystal â dysgu ieithoedd modern megis Almaeneg ac Eidaleg, er ni all dyn ond dyfalu'r galw am ddysgu ieithoedd megis Syrieg ymhlith myfyrwyr Aberystwyth. Bu'n gysylltiedig ag Aberystwyth am bron i ddeugain mlynedd o 1875 ymlaen, a hyd yn oed gyda'i arddull Almaeneg, roedd yn uchel ei barch gan awdurdodau'r Coleg. Câi ei barchu gan eraill hefyd, ac ar achlysur ei ben-blwydd yn saith deg yn gynnar yn 1914, ymddangosodd erthygl i'w ddatlun yn *The Times*.⁸ Parhaodd ar ei waith tymor hir o gatalogio'r llawysgrifau Persiaidd yn Swyddfa India.⁹ Yn wir, hyd yn oed pan nad oedd bellach yn byw yn Aberystwyth, parhaodd – er yn dal yn ddinesydd Almaeneg – i wneud y gwaith hwn i Swyddfa India.

⁵ E L Ellis, *The University College of Wales Aberystwyth 1872-1972* (Cardiff: University of Wales Press 1972), 171-3.

⁶ Mae'r amrywion ffynonellau ar gael yn archif Prifysgol Aberystwyth, amryw rifynnau o'r *Cambrian News*, a deunydd mewn ffeil yn yr Archif Genedlaethol sy'n dwyn y teitl, 'Nationality and Naturalisation: Ethe, Harriett [sic] Dora, Resident in Bristol, Certificate 2,786 issued 20 August 1917' [National Archives, HO 144/1394/270704]. Mae mwyafrif y ffeil yn cynnwys deunydd sy'n ymwneud ag Ethé ei hun yn hytrach na'i wraig.

⁷ Gweler

<http://www.archiv.unileipzig.de/recherche/Dokument/Suche/0e2f0c6fcarl+hermann+eth%25E3%25A9> (cyrchwyd ar 16 Ionawr 2014).

⁸ *The Times*, 13 Febrúary 1914, 9.

⁹ Cyhoeddwyd yr ail gyfrol yn 1937, wedi ei ddiweddarau a'i gwblhau gan olygydd diweddarach.

Yn ôl gweddw pum deg pum mlwydd oed,¹⁰ priododd ar 11 Orffennaf 1899 â Harriet Dora Phillips, Prydeinwraig naw ar hugain oed a annwyd yn Lichfield, yn ferch i Abraham Phillips, gwerthwr pysgod ac anifeiliaid hela a'i wraig Emma. Roedd y ddau ar wyliau ym Munich pan dorrodd y rhyfel allan. Tawel fu ymateb y Brifysgol i hyn. Mewn cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 2 Hydref 1914 derbyniwyd adroddiad o'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol dri diwrnod yn gynharach a ddywedai'n unig bod Ethé wedi ei wedi cael ei rwystro yn yr Almaen ac yn analluog i gyflawni ei orchwylion fel Athro Almaeneg a leithoedd Dwyreiniol. Gan fod Ethé yn ddinesydd Almaenig nad oedd erioed wedi ei ddinasfreinio, efallai ei fod wedi cael ei atal rhag dychwelyd i Brydain, ond ar gais a wnaed i'r Swyddfa Gartref ar 5 Hydref gan Brifathro'r Brifysgol, Thomas Francis Roberts,¹¹ llwyddodd i ddychwelyd, a chyrraeddodd Aberystwyth yn hwyr ar 13 Hydref. Ond oherwydd bygythiad torf i'w ddychweliad, ac er mwyn ei ddiogelwch hir dymor, bu'n rhaid iddo ef a'i wraig adael y dref.

Digwyddiadau Hydref 1914 yn Aberystwyth

Mae sut y digwyddodd hyn yn astudiaeth achos mewn trais torfol. Roedd Ethé a'i wraig wedi dianc o'r Almaen drwy'r Iseldiroedd gyda chymorth is-gennad America yn Nresden a'r awdurdodau Iseldireg, gan hwylio o Vlissingen i Folkestone. Yno caniatwyd iddynt ddod i mewn i'r Deyrnas Gyfunol ar orchymyn gan y Swyddfa Gartref a anfonwyd i Folkestone ar 8 Hydref. Teithiodd y ddau i Lundain ac oddi yno anfonodd Ethé gerdyn post at Thomas Francis Roberts yn dweud y byddai ef a'i wraig yn teithio ar drên o Lundain a fyddai'n cyrraedd Aberystwyth am 17.25. Roedd y Prifathro'n ymwybodol o deimladau lleol, ac ar ôl ymgynghori â'r Prif Gwnstabl, cytunodd y dylai ef, y Cofrestrydd a chynrychiolydd o'r myfyrwyr eu cyfarfod yng gorsaf Aberystwyth. Gan nad oedd wedi gallu cysylltu â'r ddau yn gynt, fe'u cynghorodd i fod yn ddi-stŵr eu hymddygiad oherwydd teimladau gwrth-Almaenig yn y dref. Fodd bynnag, gwelwyd y cyfarfod yn yr orsaf a'i gamddehongli fel croeso swyddogol. Trannoeth, dydd Mercher, aeth Ethé yn ôl at ei waith yn y Brifysgol gan adael ei wraig yn eu cartref. Yn ystod y bore dosbarthwyd taflenni o gwmpas y dref yn galw am gyfarfod cyhoeddus ganol dydd o flaen Capel Seilo i fynnu bod Ethé yn gadael y dref. Yn ôl adroddiadau daeth tua 2,000 o bobl ynghyd, gweithwyr yn bennaf, yn wŷr a gwragedd,¹² ac fe'u cynhyrfwyd gan ddau ffigwr lleol, y cyfreithiwr Thomas John Samuel ac yn enwedig y meddyg Thomas Davies Harries,¹³ i fynnu gwahardd Ethé. Yn dilyn

¹⁰ Roedd ei wraig gyntaf, Anna Francisca a aned yn 1848/49 yn Reuthen (a oedd bryd hynny ym Mhrwsia ond sy nawr yn ardal Brandenburg, ychydig i'r de o Cottbus) wedi marw yn Aberystwyth ar 16 Gorffennaf 1897 – yn ôl ei thystysgrif marwolaeth, o effeithiau hwyr o ryw ffurf ar sifilis. Roedd ganddynt o leiaf un plentyn, merch o'r enw Anna Louisa Helena, a fu farw o bronchitis pan oedd yn flwydd a naw mis oed ar 15 Ebrill 1875. Efallai bod ei marwolaeth a'i gysylltiadau anghysurus â Rhydychen yn ddigon i berswadio Ethé i dderbyn cynnig Aberystwyth.

¹¹ Mae'r atodiad i'r erthygl hon yn rhoi manylion bywgraffyddol holl brif gymeriadau Coleg y Brifysgol.

¹² *Cambrian News*, 16 October 1914, 5.

¹³ Y ddau hyn oedd Thomas John Samuel, YH MBE (1864-1939), cyfreithiwr lleol a chynghorydd tref, a Thomas Davies Harries (1850-1938), mab i ffermwr a oedd yn feddyg ac yn ynad lleol. Mab i weithiwr esgidiau oedd Samuel a fu'n fyfyrwr lled lwyddiannus yn Aberystwyth rhwng 1882 ac 1883, ond a adawodd heb radd i wneud erthyglau gyda chyfreithiwr yn Aberystwyth. Erbyn 1914 roedd yn gyn-Faer y dref. Er nad yw'n egluro'i ymddygiad ar yr achlysur yma, efallai bod gwrthwynebiad brwd diweddarach Harries i Ethé a'i driniaeth wedi cael ei liwio gan farwolaeth ei fab ieuengaf, Eric Guy Harries, yn y Rhyfel. Roedd yn Gapten yn Adran y

galwad gan drafaeliwr lleol, aeth y dorf o ganol y dref i gartref Ethé yn 3 Ffordd Caradog, a oedd tua chilometr i ffwrdd, a wynebu ei wraig a oedd ar ei phen ei hun yn y tŷ. Mae'n siŵr bod y digwyddiad yn una barodd cryn ddychryn iddi ond fe ddeliodd â'r sefyllfa yn ddewr iawn. Crynhodd y dyrfa yn yr ardd flaen cyn agor un o ffenestri'r tŷ a galw am Ethé. Ymddangosodd ei wraig gan ddweud nad oedd ei gŵr adref, a dadleuodd â'r dorf am tua phum munud cyn i ddau athro o'r Coleg, John Wilson Marshall (a arweiniai'r Corfflu Hyfforddi Swyddogion Lleol) ac Owen Thomas Jones, ymyrryd ac atal mwy o elyniaeth agored. Symudodd y dorf i dŷ'r Athro George Adolphus Schott i'w fygwth; brodor o Swydd Efrog oedd Schott ond roedd ei wraig o'r Almaen, ond gwrthododd gael ei ddychryn ac arhosodd yn y tŷ. Ac nid Ethé oedd yr unig un i ddioddef; gorfodwyd Almaenwyr a weithiai mewn dau westy lleol ac mewn siop trin gwallt i adael y dref. Y noson honno penderfynodd Ethé a'i wraig adael (ac ni ddychwelodd ef), gan aros dros nos yn Llandrindod cyn bwrw ymlaen i Reading lle buon nhw'n byw i ddechrau yn 42 Western Elms Avenue, cartref brawd-yng-nghyfraith Ethé, John Warburton Phillips (1879-1960) a'i wraig, Mary Evelyn (*neé* Nicholls, 1875-1947), a'u mab bychan. Daeth Phillips yn rheolwr banc yn ddiweddarach a derbyniodd MBE.

O ystyried ei sefyllfa, mae rhan y Brifysgol yn yr amgylchiadau, er yn anodd, ar y cyfan yn ddifai. Roedd cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 21 Hydref 1914 wedi anfon llythyr i'r Brifysgol yn cwyno am nad oeddynt wedi diswyddo Ethé. Dechreuodd Cyngor y Coleg drafod hyn cyn ei anwybyddu gan gyfeirio i'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol y cwestiwn a ddylid parhau i dalu Ethé. Ceir adroddiad diddorol a helaeth ar hyn yng Nghofnodion Cyfarfod o Gyngor y Coleg a gyfarfu ar fore 23 Hydref 1914 ac mae'n werth ei atgynhyrchu'n llawn. Ymhlith eitem yr Agenda ar Ohebiaeth roedd:

- (a) *Dychweliad Dr Ethé*.— Oddi wrth Mr. T[homas] J[ohn] Samuel, Cyfreithiwr, o Aberystwyth yn amgáu y cynnig canlynol "a dderbyniwyd mewn cyfarfod cyhoeddus o drigolion y dref hon a gynhaliwyd neithiwr (21ain Hydref) yn Sgwâr y Frenhines", sef:—

"Gan nad yw Awdurdodau'r Coleg wedi ymateb, fel addawyd, i'r ddirprwyaeth a alwodd ar y Prifathro yr wythnos ddiwethaf¹⁴ ynglŷn â diswyddiad yr Athro Almaeneg, mae'r cyfarfod hwn o drigolion Aberystwyth yn protestio yn gryf iawn yn erbyn cael Almaenwr ar staff Coleg Cenedlaethol Cymru pan fo'r Almaen yn rhyfela â'n gwlad; a bod y penderfyniad hwn yn cael ei anfon at Gyngor y Coleg, a'r Llywodraethwyr, am eu penderfyniad a'u hymateb."

Peiriannau Saethu o'r Ffiwsilwyr Cymreig a bu farw o'i anafiadau ar 17 Awst 1915 yn ddwy ar hugain oed. Roedd wedi cael ei anfon i'r Dardanelles ac fe'i clwyfwyd yn anghueol yn Chocolate Hill, Suvia Bay, ar 10 Awst, a bu farw ar y llong ysbyty *Euripides*; gweler *De Ruvigny's Roll of Honour, 1914-1924*, ar gael yma: <http://www.ancestry.co.uk>.

¹⁴ Mae hwn yn gyfeiriad posibl at gyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Hydref ger y Coleg, efallai yn yr awyr agored, lle ceisiodd Roberts gael mwy o amser drwy esbonio i'r dorf na ellid anfon athrawon i ffwrdd ar fyr rybudd, ac awgrymodd oedi am wythnos cyn gwneud dim er mwyn rhoi amser i awdurdodau'r Coleg ystyried y mater; efallai yn y cyfamser byddai Ethé yn gadael y dref tra bod yr ystyriaeth yn digwydd. Mae'n debyg bod y dorf wedi derbyn hyn; gweler y *Cambrian News*, 16 October 1914/5.

Esboniodd y Prifathro yr amgylchiadau pan gyfarfu ef a'r Cofrestrydd [John Humphreys Davies] ag Ethé ar ei ddychweliad i Aberystwyth.

Ar ôl ystyried y mater yn fanwl, ar gynnig y Prifathro Owen Prys, a eiliwyd gan y Dr. J[ohn] Gwenogfryn Evans,

PENDERFYNWYD—

- (i) Bod y Cyngor, ar ôl clywed esboniad y Prifathro am y digwyddiad yn gysylltiedig â dychweliad Dr Ethé, yn ystyried ei fod yn ddigonol; a gan fod y Cyngor o'r farn bod yr esboniad yn symud unrhyw gamddealltwriaeth sy'n bodoli ym meddyliau'r cyhoedd, gofynna i'r Prifathro ailadrodd ei ddatganiad i Lys y Llywodraethwyr ac i'r Wasg.
- (ii) Bod y trefniadau dros dro a wnaed er mwyn cyflawni gwaith yr Adrannau dan sylw yn parhau am y Sesiwn.

Ar gynnig y Parchedig J[enkin] Rees, eiliwyd gan D[aniel] Lloyd Lewis, Ysw.,

PENDERFYNWYD:—

Bod y cwestiwn o dalu (neu beidio) cyflog i Dr Ethé am y Sesiwn cyfredol yn cael ei drosglwyddo i'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.

Cyfarfu Llys y Llywodraethwyr a dderbyniodd ddatganiad y Prifathro ar brynhawn yr un diwrnod a chyhoeddwyd y datganiad yn ei gryswth yn y wasg leol.¹⁵ Ei fyrdwn oedd disgrifiad o sut y cyfarfu ag Ethé a'i wraig ar eu dychweliad i'r dref, gan geisio'n benodol ddadwneud yr argraff bod y grŵp derbyn yno i'w croesawu'n ffurfiol yn hytrach nag i rybuddio Ethé i fod yn ofalus yn wyneb teimladau gwrth-Almaenig yn y dref.

Denodd digwyddiadau Aberystwyth gyhoeddusrwydd cenedlaethol, o blaid ac yn erbyn y modd roedd y dref wedi trin ei thrigolion Almaenig. Derbyniodd y Prifathro neges ddienw a diddyddiad, o safon lythrennedd gyfyngedig, yn bygwth lladd Ethé pe câi ei ddwyn yn ôl i Aberystwyth gan y Brifysgol – fel y mynegodd yr awdur yn wirebol (gan awgrymu nad oedd ef/hi o'r ardal mewn gwirionedd), 'bydd ei fywyd ef mewn perygl os bydd ganddo'r wyneb i ddod yma a chymryd ein harian Saesneg [*sic*]' a 'gadewch i ddyn Prydeinig ei gael'. Nid yw'n glir yn union pryd yr anfonwyd hwn ond fwy na thebyg mai ym mis Tachwedd 1914, gan fod toriad papur newydd heb ddyddiad na ffynhonnell, yn dweud bod 'gwasanaeth tri athro Almaenig wedi ei hepgor gan awdurdodau Prifysgol Toronto', a ddigwyddodd yn Nhachwedd 1914,¹⁶ wedi ei anfon gydag ef.

¹⁵ *Cambrian News*, 30 October 1914, 3.

¹⁶ Nid yw'r hanes llawn o'r hyn a ddigwyddodd yn Toronto mor syml â hynny; gweler James G Greenlee, *Sir Robert Falconer: A Biography* (Toronto: University of Toronto Press 1988), 205-13, a Martin L Friedland, *The University of Toronto: A History* (Toronto: University of Toronto Press 2002), 260-1. Mewn gwirionedd nid ymddiswyddwyd y tri; yn hytrach ym mis Tachwedd 1914, fel cyfaddawd rhwng llywydd y Brifysgol a'i gefnogwyr, a oedd am eu cadw, a'u gwrthwynebwyr ar Fwrdd y Brifysgol oedd am iddynt gael eu diswyddo ar unwaith, rhoddwyd cyfnod o wyliau iddynt gyda chyflog llawn tan 30 Mehefin 1915, er ni ddywedwyd beth fyddai'n debyg o ddigwydd yn y diwedd, ac ymddiswyddodd dau ohonynt erbyn fis Rhagfyr 1914 a mynd i'r Unol Daleithiau. Ymddiswyddodd y trydydd hefyd erbyn Mehefin 1915 a symud i Brifysgol McMaster yn Hamilton, Ontario, a oedd yn sefydliad preifat.

Alltudiaeth Ethé yn Reading a'i ymdrechion aflwyddiannus i ddinasfreinio

Roedd yn amlwg bod yn rhaid i Roberts gydbwysu'n ofalus y gwahanol alwadau ar ei ddewisiadau. Ar y dechrau, ymddangosai i Ethé ei fod yn optimistaidd, efallai o ddifrif, ond yn fwy tebygol oherwydd teimladau Ethé, ynglŷn â'i obeithion o ddychwelyd i Aberystwyth. Ar 28 Hydref ysgrifennodd at Ethé gan ddweud, er na allai ei gynghori pryd y byddai'n ddiogel iddo ddychwelyd i Aberystwyth ac y dylai Ethé gadw draw am y sesiwn cyfredol [h.y. 1914-1915], credai 'y byddai materion yn dod yn iawn gydag amser ac ni ddylai ef [Ethé] boeni'. Atebodd Ethé ar 7 Tachwedd gan gwyno am ei ddiogi gorfodol a'i 'alltudiaeth trist o'u cartref annwyl'. Roedd yn gweithio'n galed ar broflenni o Wasg Clarendon, 'yr unig beth sy'n gwneud bywyd yn bosibl i'w oddef o dan yr amgylchiadau creulon hyn'.¹⁷

Gwnaed ymdrechion ar ran Ethé i sicrhau ei ddinasfreiniad. Cysylltodd Roberts ag un o gyn-fyfyrwyr amlycaf y Coleg, Sir Ellis Jones Ellis-Griffith, AS sir Fôn ac Is-Ysgrifennydd yn yr Adran Gartref o 1912 i 1915, i ofyn iddo i eiriol drosto. Roedd Ellis-Griffith wedi awgrymu fod y Prifathro'n ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol, Reginald McKenna, a oedd hefyd yn AS gogledd sir Fynwy. Gwnaeth Roberts hyn ar ddechrau Tachwedd 1914. Fodd bynnag, ar gais Ethé, roedd Cofrestrydd y Coleg eisoes wedi gwneud cais ffurfiol am ddinasfreiniad mor gynnar â 16 Hydref. Mae'n amlwg o ffeil Ethé yn y Swyddfa Gartref fod yna ryw faint o gydymdeimlad tuag at ei achos o fewn y Swyddfa, ond o ohebiaeth ddiweddarach gyda Roberts, mae'n amlwg hefyd pam y bu'r cais yn aflwyddiannus. Roedd y Swyddfa Gartref am wybod ai'r Brifysgol oedd y tu ôl i'r cais. Atebodd Roberts ar 5 Rhagfyr 1914 yn dweud nad oedd yn gwrthwynebu'r cais ond ei bod yn amhriodol bryd hynny i godi'r mater gerbron Cyngor y Coleg. Mae'n amlwg ei fod yn ofni na allai sicrhau cefnogaeth unfrydol y Cyngor, gan ddweud, 'mae'n bosibl y byddai trafod hyn yn arwain at raniadau barn sydd a wnelo dim â rhinweddau'r achos. Ystyriodd y Swyddfa Gartref fod natur amodol y gefnogaeth i ddinasfreiniad Ethé yn annerbyniol o lugoer. Ar 19 Ionawr 1915 ysgrifennodd Roberts at y Swyddfa Gartref eto i ailfynegi'r safbwynt hwn, ond ar yr un pryd yn dymuno gwneud yn glir ei gefnogaeth bersonol ef i'r ddinasfreiniad. Ond ni chredai'r Swyddfa Gartref fod hyn yn symud pethau ymlaen rhyw lawer ac arafodd yr ymgais am ddinasfreiniad.

Er i'r cais am ddinasfreiniad fod yn aflwyddiannus, llwyddodd Roberts i sicrhau cyflog Ethé ar gyfer 1915, er oherwydd sensitifrwydd y mater bu'n rhaid iddo wneud y trefniadau yn y dirgel drwy gyfraniadau preifat pedwar unigolyn yn y Coleg (gan gynnwys Roberts ei hun). Yn ei lythyr, 25 Ionawr 1915, yn diolch i Roberts, addawodd Ethé i gadw'r mater yn 'gwbl gyfrinachol'. Yna mynegodd Ethé ei anfodlonrwydd ag effeithiau gweithred gan Kuno Meyer, gan ei ddisgrifio fel 'ffôl ac yn hollol ddigryfiawnhad' ac yn amlwg yn niweidiol i achos Almaenwyr a oedd yn dal i fyw ym Mhrydain.¹⁸

¹⁷ Catalog Ethé, *Catalogue of Oriental Manuscripts, Persian, Arabic, and Hindustani*, oedd hwn. Argraffwyd 250 o gopïau ar gyfer Llyfrgell Genedlaethol Cymru gan Wasg Clarendon yn 1916.

¹⁸ Bu Kuno Meyer (1858-1919) yn Athro leithoedd Almaenig ym Mhrifysgol Lerpwl tan 1911, pan symudodd i Brifysgol Berlin fel Athro Ffiloleg Geltaidd. Roedd ganddo gysylltiad hir ag achos annibyniaeth Iwerddon a thra oedd ar daith ddarlithio yn yr Unol Daleithiau traddododd ddarlith, a adroddwyd yn helaeth yn y wasg, i Gymdeithas Clan-na-Gael Efrog Newydd ar 17 Rhagfyr 1914 lle soniodd am fwriad yr Almaen i annog

Arhosodd Ethé yn gaeth i Reading. Ar 16 Mawrth 1915 ysgrifennodd at Roberts i ddweud bod ei gais am ganiatâd arbennig i ymweld â Clifton ym Mryste, lle roedd mam a chwaer ei wraig yn byw, wedi cael ei wrthod gan Brif Gwnstabl Bryste. Meddylodd Ethé, a oedd yn dal i geisio, yn aflwyddiannus, am ddinasfreiniad, tybed a fyddai'r Arglwydd Kenyon a Sir Samuel Thomas Evans¹⁹ yn gallu rhoi gair da drosto. Erbyn 3 Ebrill 1915 roedd Ethé'n dweud bod ei wraig, ond nid ef, wedi cael caniatâd i ymweld â Clifton. Roedd yn amlwg yn poeni ei fod wedi aros yn rhy hir yn nhŷ ei frawd-yng-nghyfraith ac wedi cael cynnig y posibilrwydd o symud ar wahoddiad i gartref Charles Herford ym Manceinion.²⁰

Fel dinesydd Almaenig, fe allai Ethé hefyd gael ei ddychwelyd i'r Almaen, rhywbeth yr ofnai yn fawr. Ar 1 Mehefin 1915 ysgrifennodd Ethé at Roberts yn dweud ei fod newydd dderbyn oddi wrth y Swyddfa Gartref ffurflen i wneud cais i gael ei eithrio o gael ei ddychwelyd i'w famwlad. Roedd arno angen enwau a chyfeiriadau dinasyddion Prydeinig a fyddai'n barod i roi geirda i'w gymeriad. Cytunodd Roberts i sicrhau'r gefnogaeth hon iddo. Ar 15 Mai 1915 roedd Swyddfa India wedi mynegi i'r Swyddfa Gartref ei safbwynt na ddylid dychwelyd Ethé i'r Almaen, a chafwyd sylwadau tebyg gan heddlu Reading a chydweithwyr academiaidd Ethé, Edward Milner-Barry²¹ a Charles Herford. A dyna sut yr osgôdd Ethé gael ei ddychwelyd i'r Almaen.

Pensiwn Ethé a'i ymddiswyddiad o'r Coleg

Ar ôl i'w achos gilio o sylw uniongyrchol y Brifysgol am wyth mis, yn sydyn dechreuodd pethau symud yn ddiwrthdro i'r pen. Bygythiodd aelod o Gyngor y Coleg, Frederick Llewellyn-Jones, a oedd yn gyfreithiwr ac yn gyn-fyfyrwr a oedd wedi gweithio'n galed i sefydlu Adran y Gyfraith, y byddai'n codi yng nghyfarfod y Cyngor y dylai Ethé gael ei amddifadu o'i gadair. Ar 4 Mehefin 1915 anfonodd lythyr at y Cofrestrydd yn gofyn i'r cynnig canlynol gael ei gynnwys ar agenda cyfarfod nesaf y Cyngor:

I dynnu sylw at y ffaith fod enw'r Dr Hermann Ethe [*sic*] sy'n ddinesydd Almaenig yn dal i ymddangos yng Nghalendr Coleg Prifysgol Cymru fel Athro yn y Coleg, ac i osod cynnig bod camau'n cael eu cymryd i'w amddifadu o'i gadair a'r holl enillion cysylltiedig ar y dyddiad cyntaf posibl.

Gyda'r un post anfonodd Frederick Llewellyn-Jones lythyr ar Roberts yn esbonio pam ei fod wedi llunio'i gynnig. Nododd fod Ethé wedi bod ym Mhrydain am dros ddeugain mlynedd a gallai fod wedi cael dinasfreiniad yn ystod yr amser hwnnw. Ond gan nad oedd, roedd yn dal yn Almaenwr, ac felly'n perthyn i 'genedl o farbariaid anwaraidd na fyddai'n ymatal yn eu cais i ddifa Prydain'. Nododd Llewellyn-Jones ddau achos diweddar a'i gofidiai (ac yn wir a oedd wedi

carcharorion rhyfel Gwyddelig yn yr Almaen i roi eu teyrngarwch naill ochr a chymryd rhan mewn ymosodiad ar Loegr ac Iwerddon; gweler *The Times*, 24 December 1914, 10.

¹⁹ Lloyd Tyrrell-Kenyon, 4^{ydd} Barwn Kenyon (1864-1927), a oedd yn Ddirprwy Ganghellor Hŷn Prifysgol Cymru a Syr Samuel Thomas Evans (1859-1918) cyn fyfyrwr o Aberystwyth and chyn-AS dros Forgannwg Ganol oedd y ddau yma.

²⁰ Charles Harold Herford (1853-1931), Athro Llenyddiaeth Saesneg ym Mhrifysgol Manceinion.

²¹ Edward Leopold Milner-Barry, MA (1867-1917), Athro Almaeneg a Ffiloleg Deutonaidd yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru Bangor.

bwydo teimladau gwrth-Almaenig yn ddirfawr ym Mhrydain), sef y defnydd o nwy gwenwynig mewn brwydrau (a ddefnyddiwyd gyntaf gan yr Almaenwyr ar 22 Ebrill 1915 ym Mrwydr Ypres) a suddo'r llong y *Lusitania* (a ddigwyddodd ar 7 Mai 1915); cyfeiriodd hefyd at 'lofruddiaeth gwragedd a phlant diniwed'. Felly i Llewellyn-Jones, 'ni ellir oddef athro "Almaeneg" yn Aberystwyth'.

Atebodd Roberts i hyn ar y 5ed, gan geisio tawelu Llewellyn-Jones a chynnig ei gyfarfod yn bersonol mewn lle o'i ddewis ef, ond aflwyddiannus bu'r ymgais hwn i dawelu'r dyfroedd. Ar y 7fed, ymatebodd Llewellyn-Jones gan gadarnhau ei safbwynt ac awgrymu y dylid gwahodd Dr Ethé i anfon ei ymddiswyddiad i'r Cyngor, ac os na ddigwyddai hynny, bygythiodd godi'r mater o flaen Llys y Llywodraethwyr, a fyddai, awgrymodd wrth Roberts, yn gamgymeriad gan y byddai hynny'n arwain at lawer mwy o gyhoeddusrwydd na phe bai'r Cyngor yn delio â'r mater. Dros y nesaf parhaodd Roberts i geisio cael cyfarfod â Llewellyn-Jones i'w sicrhau 'na fyddai camgymeriad yn cael ei wneud wrth ymdrin [â'r achos]'. Ar 9 Mehefin ymatebodd Roberts yn eliptig i Llewellyn-Jones gan ei sicrhau y byddid yn delio â'r mater, a gan ddweud, mewn ôl-nodyn, o ystyried y sicrwydd hwn, bod Llewellyn-Jones yn caniatáu iddo ofyn i'r Cofrestrydd i ddal ei gynnig yn ôl 'am y tro'. Yn y cyfamser, cynigiodd Roberts y byddai'n 'cymryd camau i gael trefniant *drwy gytundeb* [ychwanegwyd yr italeiddio]'. O wybod yr hyn a ddigwyddodd, daw'n amlwg beth a olygir gan yr ymadrodd olaf.

Ar 14 Mehefin ysgrifennodd Roberts at Uwch-gapten [Colonel] Dunne o Ymddiriedolaeth Rendel,²² gan nodi bod taliadau Ethé o Swyddfa India a'r Amgueddfa Brydeinig wedi eu hatal ond bod pedwar aelod o'r Coleg (gan gynnwys Roberts) yn gwarantu yn breifat ei gyflog o £200 y flwyddyn. Esboniodd Roberts fod y Cofrestrydd wedi bod mewn cysylltiad â Mrs Ethé ac wedi awgrymu iddi y dylai Ethé ymddiswyddo ar y ddealltwriaeth bod y Cyngor yn talu iddo yr hyn ddylai dderbyn yn ôl y cynllun pensiwn ar ei ben blwydd yn 75 (a fyddai yn 1919), sef £150 y flwyddyn.

Cytunwyd i hyn drwy symudiadau cudd a dirgel er mwyn cadw'r hyn oedd yn digwydd yn gyfrinachol, yn enwedig oddi wrth drigolion Aberystwyth. Datgelodd Roberts y cynllun i'w Athro Sŵleg, Herbert John Fleure, fel ei negesydd i Ethé. Ar 22 Gorffennaf 1915 anfonodd Fleure lythyr personol at Roberts o westy yn Llundain yn dweud ei fod wedi ymweld â Reading y prynhawn hwnnw a gallai adrodd bod Ethé yn barod i dderbyn ei bensiwn. Adroddodd Fleure bod Ethé'n ymbil na fyddai 'wedi ei drefnu yn derfynol ac yn ddidroi'n ôl na châi fyth eto ddychwelyd [i Aberystwyth]' ac mai meddwl am ddychwelyd oedd 'yn ei gadw i fyny'. Adroddodd Fleure ei fod wedi anfon telegram i 'J. H.', sef John Humphreys Davies, Cofrestrydd Coleg y Brifysgol, yn dweud 'Barkiss yn cydsynio, ond yn dal i obeithio dychwelyd ryw ddiwrnod'. Roedd hyn yn amlwg yn god oedd wedi ei lunio ymlaen llaw, a 'Barkiss' yn ffugenw am Ethé, er mwyn atal derbyniwr y telegram yn Swyddfa'r Post yn Aberystwyth, rhag deall pwy oedd pwy a datgelu'r gyfrinach i'r dref. Er mwyn cuddio pethau ymhellach, pwysleisiodd Fleure ei fod wedi anfon y telegram o Lundain ac nid o Reading, oherwydd efallai y byddai pobl yn gwybod mai yno roedd Ethé'n byw.

²² Roedd Lefftenant-Cyrnol Edward Marten Dunne (1864-1944), wedi priodi i mewn i deulu Rendel ac wedi bod yn AS Rhyddfrydol dros Walsall rhwng 1906 ac 1910. Cafodd y Rendel Trustees eu henwi ar ôl Stuart Barwn Rendel cyntaf (1834-1913), Llywydd Coleg Prifysgol Cymru o 1895.

Ymddiswyddodd Ethé'n syth.²³ Yn ei gyfarfod ar 24 Medi 1915, nododd Cyngor y Coleg ei fod wedi derbyn ymddiswyddiad Athro Ethé fel deiliad Cadair Almaeneg a leithoedd Dwyreiniol, ynghyd â'i gais am bensiwn. Ar gynnig a ddaethpwyd gan Gwenogvryn Evans, ac eiliwyd gan Owen Prys, derbyniwyd ei ymddiswyddiad ac awdurdodwyd iddo bensiwn o £150 y flwyddyn o 1 Hydref 1914. Cynigiodd Gwenogvryn Evans, a'i eilio gan Walter Jenkin Evans, fod manylion trefniadau talu'r pensiwn yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol am ystyriaeth ac adroddiad. Ac yn ei gyfarfod nesaf ar 29 Hydref 1915, derbyniodd y Cyngor adroddiad gan y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar sut y dylid ariannu pensiwn Ethé. Dôl £75 y flwyddyn o gyllid y Coleg, a'r £75 arall o flwydd-dâl y byddai'r Coleg yn ei brynu ag arian o'r Gronfa Bensiwn.

Perthynas y Coleg a Chyngor y Dref

Dirywiodd perthynas y Coleg a Chyngor y Dref yn ystod achos Ethé. Beirniadodd Cyngor y Dref y Coleg am ddyfarnu blwydd-dâl iddo, yn enwedig gan fod rhywfaint ohono yn dod o gyllid y Coleg. Cafwyd adroddiad yn y *Times* o gyfarfod o Gyngor y Dref ar 11 Ebrill 1916 pan gafodd cynnig ei ddwyn gerbron gan yr Henadur Samuel²⁴ yn condemnio Cyngor Coleg y Brifysgol am 'argymell taliadau o incwm y Coleg i Dr Ethé, gŵr estron, ac y dylai copi o'r penderfyniad gael ei anfon i gyfarfod nesaf Llywodraethwyr y Coleg ac i'r cynnig hwn gael ei gario. Yn ystod y ddadl nododd yr Athro Edward Edwards, a oedd hefyd yn Gyngorydd ar Gyngor y Dref, fod Ethé wedi condemnio'r Kaiser yn y modd mwyaf cryf a'i fod yn dal i weithio i Swyddfa India ar ran y llywodraeth.²⁵ Cynigiodd Samuel ohirio'r drefn arferol er mwyn caniatáu ei gynnig brys gan fod Llywodraethwyr y Coleg i gyfarfod yn Rhaeadr ymhen ychydig wythnosau. Fe awgrymodd hyd yn oed y dylai dirprwyaeth o Gyngor y Dref fynd i gyfarfod â'r Llywodraethwyr a chyfleu eu penderfyniad iddynt gan fynegi ei anghymeradwyaeth a'i atgasedd.²⁶

Yn y cyfarfod ar 28 Ebrill 1916 dan gadeiryddiaeth Syr Garrod Thomas, ystyriodd y Llywodraethwyr ar y dechrau drosglwyddo cynnig Cyngor y Dref i Gyngor y Coleg ond yna fe'i tynnwyd yn ôl a'i adael ar y bwrdd. Gan fod Ethé wedi cyfrannu i gronfa bensiwn y Coleg, ystyrid ei bod yn ddyletswydd moesol dalu'r pensiwn iddo, er ei bod yn wir bod rhan ohono'n dod yn uniongyrchol o gronfa'r Coleg. Cynddeiriogodd y sarhad eithriadol hwn Gyngor y Dref, a phan hysbysodd y Cofrestrydd y Cyngor ym Mai 1916 fod tymor un o'i enwebedigion ar Lys y Llywodraethwyr yn dod i ben, cynigiodd yr Henadur Samuel na ddylid penodi cynrychiolydd 'ar ôl y driniaeth a roddodd Llys y Llywodraethwyr yn Rhaeadr i'r brotest yn erbyn pensiwn Dr Ethé'.²⁷ Cymeradwywyd hyn gan bleidlais o bedwar ar ddeg i un (yr un oedd Edward Edwards).

²³ Mae'n bosibl bod diswyddiadau, neu wahoddiadau i ymddiswyddo, tu allan i addysg uwch hefyd yn gyffredin. Er enghraifft, mewn cyfarfod o Gyngor Tref Nottingham galwyd am ymddiswyddiad rheolwr tramiau'r Gorfforaeth a oedd wedi ei eni yn yr Almaen, er iddo gael iawndal gwerth £300. Mae'n debyg iddo fod yn y swydd am ddeuddeg mlynedd, ond dim ond ar ôl dechrau'r Rhyfel roedd wedi gwneud cais am ddinasfreiniad; gweler *The Scotsman*, 27 October 1914, 7.

²⁴ Hwn yw'r Thomas John Samuel cyfeiriwyd ato uchod. Eiliwyd y cynnig gan y Cyngorydd Harries.

²⁵ *The Times*, 13 April 1916, 11.

²⁶ *Cambrian News*, 14 April 1916, 6.

²⁷ *Cambrian News*, 12 May 1916, 3

Mae'n bosib bod Llewellyn-Jones hefyd wedi bod yn anhapus gyda'r blwydd-dâl. Nid oedd yn fynychwr cyson o gyfarfodydd Cyngor y Coleg, ond os byddai'n absennol, fe fyddai fel arfer yn ymddiheuro am hynny. Ond yn y tri chyfarfod a gynhaliwyd ar ôl iddo anfon ei gynnig, ym Mehefin, Medi a Hydref 1915, nid oedd yn bresennol ac nid anfonodd ymddiheuriad.

Hyd yn oed ar ôl i Ethé farw yn 1917, parhaodd gelyniaeth Cyngor y Dref iddo. Yn Hydref 1917, yn amheus o agos i ddiwedd ei gyfnod, ymddiswyddodd Maer y dref, siopwr o'r enw Caleb Morgan Williams (1853-1928), o Lys y Llywodraethwyr a Chyngor y Coleg am fod y Llywodraethwyr wedi anwybyddu protest gynharach Cyngor y Dref i bensiwn Ethé. O ystyried y gallai'n hawdd fod wedi ymddiswyddo o'r swyddi hyn yn llawer cynharach yn ystod ei gyfnod fel Maer, mae dyn yn synnu at yr hyn roedd e'n ei feddwl, er mae'n rhaid ei bod wedi bod yn flwyddyn anodd iddo gan i'w wraig farw yn gynnar yn ei dymor, ym mis Mawrth 1917. Anfonwyd ei lythyr ymddiswyddo ar 6 Hydref 1917 ac fe'i derbyniwyd ar y 9^{fed}. Adroddwyd ar ei lythyr ymddiswyddo yn y *Cambrian News* ar 12 Hydref 1917 a derbyniodd y Llywodraethwyr ef yn eu cyfarfod nesaf.²⁸ Roedd y Cofrestrydd wedi anfon nodyn byr o gydnabyddiaeth gan nodi ei ofid a sicrhau Williams nad oeddynt wedi bwriadu unrhyw anghwrteisi. Efallai ei bod hi'n arwydd bod Cyngor y Dref yn teimlo ychydig o gywilydd am ei safiad, bod Edward Edwards, amddiffynnwr Ethé, wedi cael ei wneud yn Faer Aberystwyth am 1919-1920.

Materion Seneddol ynghylch Ethé

Yn hanner olaf 1916, efallai oherwydd i'r Coleg wrthod beirniadaeth Cyngor y Dref, gofynnwyd cyfres o gwestiynau seneddol, gyda'r bwriad o godi embaras ar y Llywodraeth ynghylch y ffaith fod Ethé yn dal i weithio i Swyddfa India. Cafwyd y cyntaf gan William Joynson-Hicks²⁹ ar 18 Mai 1916. Ysgrifennodd J.H. Davies, y Cofrestrydd, at y Swyddfa Gartref ar 26 Gorffennaf 1916 yn gofyn a fyddai'r Swyddfa Gartref yn gallu cefnogi pensiwn Ethé yng ngoleuni'r cwestiwn hwn. Atebodd y Swyddfa Gartref gan ddweud na welai unrhyw reswm dros atal yr hyn oedd yn ddyledus iddo, ond yn fwy na hynny nid oedd am ymyrryd. Yn Hydref a Thachwedd 1916 gofynnodd Syr Henry Dalziel³⁰ hefyd nifer o gwestiynau seneddol – a oedd Ethé'n cael ei gyflogi i wneud gwaith i'r Llywodraeth,³¹ pam nad oedd Ethé wedi ei ddinasfreinio, pryd oedd ei ymweliad diwethaf â'r Almaen, a oedd y Swyddfa Gartref wedi dylanwadu ar ei ddychweliad i Brydain? Yng nghwrs yr atebion i gwestiynau Dalziel ac eraill ar 2 Tachwedd 1916, fe ddaeth i'r amlwg nad oedd Ethé wedi derbyn unrhyw dâl am ei waith ers tua 1901 (pan oedd wedi cwblhau ei gyfrol gyntaf o ddogfennau Swyddfa India), bod y dogfennau i'w catalogio yn cael eu hanfon ato yn ei gartref, ac felly nad oedd yn ymweld â Swyddfa India ei hun. Roedd y ffaith fod Ethé wedi gweithio'n ddi-dâl am bymtheng mlynedd yn synnu o leiaf un Aelod Seneddol, a

²⁸ *Cambrian News*, 26 October 1917, 6.

²⁹ William Joynson-Hicks (1865-1932), AS Unoliaeol dros Brentford o 1911 hyd 1918, cyfreithiwr â gyrfa wleidyddol ddadleuol, gan gyrraedd penllanw fel Gweinidog Cartref gormesol o 1924 i 1929.

³⁰ James Henry Dalziel (1868-1935), AS Rhyddfrydol dros Fwrdeistrefi Kirkcaldy o 1892 i 1921 a oedd yn Gadeirydd y Pwyllgor yng Ngofal Carcharorion Rhyfel yr Almaen o 1914 i 1918; fe ddaeth yn Barwn Dalziel cyntaf Kirkcaldy yn 1921.

³¹ *Manchester Guardian*, 26 October 1916, 4.

esboniad gan lefarydd ar ran y Llywodraeth fod Ethé'n parhau i wneud y gwaith am fod ganddo ddiddordeb ynddo.³²

Daeth nifer o gydweithwyr proffesiynol Ethé i'w amddiffyn. Er enghraifft, anfonodd ei gyfaill a'i gyn-gydweithiwr, Charles Herford, lythyr i'r *Manchester Guardian* yn dadlau o blaid 'gwrth-Brwsiaeth' Ethé, gan honni bod gwrthwynebiad i'w safbwyntiau gan Weinidogaeth Addysg Ymerodraethol yr Almaen wedi rhwystro ymdrechion i'w ddenu yn ôl i gadair ym mhrifysgol yn yr Almaen, a chan nodi hurtrwydd y cyhuddiad y gallai ddefnyddio'i waith yn Swyddfa India i anfon gwybodaeth i Berlin.³³ Ar 10 Tachwedd 1916 ysgrifennodd Milner-Barry lythyr hefyd yn cefnogi Ethé at yr Arolygydd Estroniaid yn y Swyddfa Gartref, yn honni bod y cynnwrf yn ganlyniad yn unig i fethiant Cyngor y Dref i atal y pensiwn.

Blwyddyn olaf Ethé a'i farwolaeth

Yng ngwanwyn 1916 llwyddodd Ethé a'i wraig, gyda chaniatâd y Prif Gwnstabl Lleol, i symud i fflat yn 29 Royal Oak Crescent yn Clifton a gafwyd iddynt ar les tair blynedd gan frawd-yng-nghyfraith arall iddynt, Robert Bruce Wilson, a oedd yn briod â chwaer arall i Harriet ac oedd yn byw yn agos. Llwyddodd Ethé hyd yn oed i gael rhai o'i lyfrau a'i eiddo wedi eu hanfon o Aberystwyth. Ar y cychwyn ofnid y câi ei orfodi i adael Bryste gan ei bod yn ardal waharddedig, ond ar ôl ple i'r Swyddfa Gartref, diflannodd y bygythiad.

Dim ond blwyddyn yn ddiweddarach, ar 7 Mehefin 1917, bu farw Ethé yn ei gartref o gancr ar ei wddf, ac ar 11 Mehefin fe'i claddwyd ym Mynwent Canford ym Mryste. Roedd ymateb Coleg y Brifysgol i hyn yn fwy na chydymdeimlad yn unig. Mewn cyfarfod ar 29 Mehefin 1917 adroddodd y Prifathro farwolaeth Ethé i Gyngor y Coleg a dywedodd fod y Senedd wedi llunio cynnig o gydymdeimlad ac wedi ei anfon at Mrs Ethé. Yna cytunodd y Cyngor 'fod y Cyngor yn ei gysylltu ei hun â'r Senedd yn y golled fawr roedd y Coleg *wedi* [ychwanegwyd y pwyslais] ei ddioddef trwy farwolaeth yr Athro Ethé a'i gydymdeimlad dwfn â Mrs Ethé yn ei thristwch a'i cholled'.

Yn syth ar ôl ei farwolaeth, gwnaeth gweddw Ethé gais i gael dychwelyd i'w dinasyddiaeth Brydeinig o'r ddinasyddiaeth Almaenig roedd hi wedi ei derbyn ar ei phriodas. Ysgrifennodd ei brawd-yng-nghyfraith, Robert Wilson, at y Swyddfa Gartref ar 13 Mehefin 1917 yn gofyn a allai hi gymryd camau i gael ei hailddinasfreinio ac os felly beth ddylai ei wneud. Roedd hi'n amlwg ei bod hi'n ei haeddu ac felly fe wnaeth gais. Cafodd eirida i'w chymeriad gan Brif Gwnstabiliaid Bryste a Cheredigion a gan J.H. Davies, Cofrestrydd y Coleg, a chaniatawyd yr ailfynediad ym Mryste ar 20 Awst 1917. Pan oedd hi am ailhawlio'i dinasyddiaeth Brydeinig, roedd yn rhaid iddi wneud cais am ailfynediad yn ôl gofynion Deddf Dinasyddiaeth Brydeinig a Statws Estroniaid 1914, a ddaeth yn weithredol ar 1 Ionawr 1915. Roedd yr angenrheidrwydd i weddw Brydeinig i w'r o genedl estron orfod wneud cais i gael ei dinasyddiaeth Brydeinig yn ôl yn Rhan III y Ddeddf. Mae'n rhaid bod cais gweddw Ethé yn un o'r enghreifftiau o ailfynediad y cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Cartref, Sir George Cave, atynt mewn dadl yn Nhŷ'r Cyffredin ar 17

³² *The Times*, 3 November 1916, 9; *Manchester Guardian*, 3 November 1916, 7. Am adroddiad tipyn ysgafnach a thafod-ym-moch o'r digwyddiad, gweler *Manchester Guardian*, 3 November 1916, 5.

³³ *Manchester Guardian*, 6 November 1916, 10.

Rhagfyr 1917 fel ei unig ddinasfreiniaid, a'r rhain i gyd yn weddwon i wŷr o'r Almaen neu Awstria.³⁴ Nodai ei ffeil gyda'r Swyddfa Gartref bryder y byddai'r cyhoeddiad gyda'i henw anghyffredin pan ymddangosai yn y *London Gazette* yn peri sylwadau negyddol, ond er hynny roedd hi'n gwbl haeddi cael ei dinasyddiaeth yn ôl.³⁵

Mae bob amser yn anghywir dweud bod dioddefwr wedi dwyn ei drafferthion arno ef neu hi ei hun drwy fethiant rhyw weithred a allai fod wedi ei arbed rhag y dioddefaint hwnnw. Ond fe allai trafferthion Ethé gyda phobl Aberystwyth fod wedi bod yn llawer llai pe bai ef wedi ceisio'n galetach i ymdoddi i'r gymuned leol. Er gwaethaf ei alluoedd ieithyddol amlwg a'r ffaith ei fod wedi byw am flynyddoedd lawer yn un o gadarnleoedd y Gymraeg, ni wnaeth unrhyw ymdrech i ddysgu'r iaith, gan gredu yn ôl y sôn – ac yn ôl Ellis³⁶ – mai'r unig air o Gymraeg roedd angen i unrhyw un ei wybod oedd 'cwrw'.

³⁴ Panayi, *op. cit.*, 64.

³⁵ Bu hi fyw, heb ailbiodi, fel gweddw Ethé am dros ddeng mlynedd ar hugain, gan fyw yn ddiwedddarch ger ei thref enedigol, Lichfield. Bu farw yn Ysbyty Tamworth ar 27 Medi 1947 o ganlyniad i sioc ar ôl disgyn i lawr y grisiau.

³⁶ Ellis, *op. cit.*, 171.

Atodiad: prif gymeriadau'r Coleg

Davies, John Humphreys (1871-1926), MA; Cofrestrydd, 1905-19, Prifathro, 1919-26, Aelod o Gyngor Coleg y Brifysgol

Edwards, Edward (1865-1933), MA; Athro Hanes, Aelod o Gyngor Tref Aberystwyth yn 1916, Maer Aberystwyth, 1919-1920

Evans, John Gwenogvryn (1852-1930), MA, DLitt; paleontolegydd yn Rhydychen, Aelod o Gyngor Coleg y Brifysgol

Evans, Walter Jenkin (1856-1927), MA; Prifathro Coleg Presbyteraidd, Caerfyrddin, Aelod o Gyngor Coleg y Brifysgol

Fleure, Herbert John (1877-1969); Athro Sŵleg a Darlithydd mewn Daearyddiaeth, Aelod o'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol

Jones, Owen Thomas, MA, DSc (1878-1967); Athro Daeareg

Lewis, Daniel Lloyd (1854/5?-1935); Ffermwr a Rheolwr Banc, Aelod o Gyngor Coleg y Brifysgol o 23 Hydref 1914

Llewellyn-Jones, Frederick (1866-1941), BA, LLB; Cyfreithiwr a Chrwner ei Fawrhydi yn Sir Fflint, Aelod o Gyngor Coleg y Brifysgol; AS Rhyddfrydol Sir Fflint, 1929-35

Marshall, John Wilson (1857-1923), MA; Athro Groeg a Dirprwy Brifathro Coleg y Brifysgol

Prys, Parch. Owen (1857-1934), MA, DD; Prifathro Coleg Diwinyddol Aberystwyth, 1891-1927, ac Athro Athroniaeth Crefydd a Dogma, Aelod o Gyngor Coleg y Brifysgol

Rees, Parch. Richard Jenkin (1868-1963), MA; Gweinidog Anghydfurfiol, Aelod o Gyngor Coleg y Brifysgol

Roberts, Thomas Francis (1860-1919), MA, LLD; Prifathro, 1891-1919, Aelod o Gyngor Coleg y Brifysgol

Schott, George Adolphus (1868-1937), BA, DSc; Athro Mathemateg Gymhwysol

Thomas, [Syr] Abraham Garrod (1853-1931); AS De Sir Fynwy, 1917-18, a Chadeirydd Llywodraethwyr Coleg y Brifysgol